**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 441**
**16 Gorffennaf, 2020 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | | |
|---|---|---|
| | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | | |
| | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol:** **Staff S4C:** | | |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitem 5 |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) – eitem 3 |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 3 |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Allanol:** | Morgan Lloyd | |
| **Ymddiheuriadau** | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd RhW adroddiad ar lafar. Adroddodd ei fod yn cael cyfarfod gyda Gweinidog DCMS sef John Whittingdale AS.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

**Covid-19**

**[Crynodeb:** Cafwyd diweddariad gan OE. Roedd y sector wedi ymateb yn dda i'r sefyllfa. Bellach mae canllawiau wedi'i roi ar y safle cynhyrchu ar gyfer sicrhau gweithio'n ddiogel.

O ran y sefyllfa yswiriant, roedd trafodaethau'n parhau rhwng y DCMS a'r Trysorlys. Roedd OLl yn siarad gyda'r DCMS yn y prynhawn i wirio beth oedd y diweddaraf. Cynhyrchu Drama oedd y broblem fwyaf ac yn risg i S4C. Nodwyd fod Un Bore Mercher wedi gallu adfer ffilmio gan fod ganddynt yswiriant ond yn gyffredinol, mae cynyrchiadau yn ei chael hi'n anodd sicrhau yswiriant digonol.]

Soniwyd am gymorth ariannol i fusnesau gan Lywodraeth y DU a Chymru. Roedd nifer o'r cwmnïau mawr wedi gosod eu staff ar ffyrlo er enghraifft. Nododd OE nad oedd pryder am unrhyw gwmni mawr ac roedd yn ffyddiog eu bod yn iawn. Ond roedd Cwmnïau canolig eu maint falle yn fwy o bryder.

**Cyflenwad Statudol BBC**

**[Crynodeb:** Nodwyd bod swyddogion BBC Cymru a'r BBC yn ganolog yn trafod y mater o'r cyflenwad statudol o raglenni i S4C gan y BBC yn sgil Covid-19.

Gofynnodd OD a oedd swyddogion y DCMS wedi rhoi cadarnhad ffurfiol eto o ran trafodaethau ar wahân i S4C fel rhan o'r broses Ffi'r Drwydded? Dywedodd OLl ein bod yn aros am gadarnhad ganddynt.]

**Gweledigaeth am sut fydd S4C yn gweithredu i'r dyfodol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EM y papur. Roedd cynllunio i ail-agor ein swyddfeydd yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon a symud i Sgwâr Canolog yn cynnig cyfle inni edrych o'r newydd ar sut fydd S4C yn gweithredu i'r dyfodol ac yn defnyddio'r swyddfeydd sydd gennym. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth yr hyn rydym wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnod clo, yr adborth o'r arolwg staff a sut mae agweddau pobl a sefydliadau yn gyffredinol wedi newid yn ddiweddar tuag at weithio mewn swyddfeydd.]

Dywedodd CW bod hi'n bwysig wrth edrych i'r dyfodol ein bod yn dysgu o'n profiad dros y misoedd diwethaf a chydnabod fod agwedd pobl yn gyffredinol at weithio'n llawn amser mewn swyddfa wedi newid. Roedd gweithio o adre wedi galluogi S4C i barhau ei gwaith yn llwyddiannus. Roedd llawer wedi ei ffeindio'n haws i gyflawni eu gwaith, gan groesawu gweithio oriau hyblyg. Ar yr ochr arall roedd cysylltiadau cymdeithasol yn bwysig i bobl a hefyd yr angen i gydweithio yn gorfforol yn hanfodol i rai prosesau. Roedd cyfathrebu mewnol hefyd wedi gwella a rheolwyr yn ymgysylltu mwy gyda staff.

Cytunodd OD, ond nododd y perygl bod staff yn colli trafodaethau creadigol. Roedd AR o'r farn fod sawl diwylliant gwahanol o fewn S4C a byddai angen ystyried anghenion pob adran. Nododd OD  bod angen cysondeb rhwng adrannau ar yr un pryd. Awgrymodd AG y gellid edrych ar ryw fath o 'hybrid model'.

4. **Adroddiadau o'r Pwyllgorau**

**Pwyllgor Cynnwys**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd OD benawdau o'r Pwyllgor Cynnwys. Trafodwyd y BBC, y diweddaraf o ran y sector, a chafwyd cyflwyniadau gan y comisiynwyr ar Chwaraeon, Plant a Newyddion Digidol. Fel rhan o hwn trafodwyd syniadau am y Casglwr Cynnwys.

Nododd OD fod safon yr adroddiadau yn dda iawn ac roedd y Pwyllgor yn dechrau gweithredu'n fwy strategol. Dywedodd AR fod lefel y drafodaeth a'r craffu wedi bod yn help mawr i'r tîm ffocysu ar y dyfodol.]

**Pwyllgor Archwilio**

Adroddodd OLl fod y Pwyllgor Archwilio wedi canolbwyntio yn bennaf ar y prosiect cydleoli gyda'r BBC.

**Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol**

Cyflwynodd EM adroddiad o'r Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf. Ymysg y pynciau a drafodwyd oedd adroddiad hysbysebion gan Sky gan gynnwys hysbysebion ar gyfer elusennau. Bu trafod hefyd am hysbysebion ar Clic. Nodwyd bod Dawn MacPhail yn gadael Sky ar ôl blynyddoedd o weithio gyda S4C. Cytunwyd y dylid danfon llythyr o werthfawrogiad ati ar ran y Bwrdd.

**[Crynodeb:** Daeth swyddogion yr NAO i mewn i gyflwyno archwiliad y cyfrifon masnachol.]

5. **Adroddiad Ariannol - cyfnod a derfynodd Mawrth 2020.**

Cyflwynodd ShW yr adroddiad.

Nodwyd nad oedd angen defnyddio'r gronfa wrth gefn yn y diwedd ond roedd yn ddefnyddiol bod y trafodaethau gyda'r DCMS wedi digwydd o ran y broses a'r ffaith fod S4C ddim yn yr un sefyllfa a'r BBC wrth drin y gronfa wrth gefn. Byddai angen parhau i drafod eleni ac mewn perthynas â'r ffaith bydd y setliad cyfan yn dod o Ffi'r Drwydded o 2022 ymlaen.

**Adroddiad Chwarter 1**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd ShW yr adroddiad ar y chwarter gan nodi rhai arbedion gan fod llai o deithio a chynhaliaeth a chanslo Digwyddiadau. Gofynnodd ShW os oedd y Bwrdd yn hapus i drosglwyddo'r arbedion i'r Gyllideb Cynnwys. Cytunodd y Bwrdd.]

6. **Adroddiad Blynyddol**

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd gyda'r Adroddiad Blynyddol.

7. **Adrodd nôl ar Amcanion Gweithredol 2019/20**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd diweddariad ar Amcanion Gweithredol S4C ar gyfer 2019/20. Roedd AG yn teimlo fod hon yn ddogfen ddefnyddiol iawn, gyda'r atebion i'r cwestiynau wedi'u nodi'n glir. Cytunwyd y dylai OE gyflwyno Amcanion Gweithredol 2020-21 i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Medi.]

8. **Pwyntiau Gweithredu**

Byddai Jeremy Evas yn cynnal sesiwn i holl staff S4C ym mis Medi.

Prosiect Llyfrgell Genedlaethol – roeddent wedi ail-ystyried ei sefyllfa a chredir nawr ei fod yn ormod o faich hir dymor ac yn wastraff adnoddau i adeiladu storfa newydd ar gyfer eitemau sydd eisoes wedi eu digido.

Dyddiadau Bwrdd 2021 - nododd RhW ei fwriad i leihau nifer y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. Byddai hynny wedyn yn rhyddhau aelodau i gael sgyrsiau strategol.

9. **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg**

Roedd y Bwrdd yn hapus gyda'r Adroddiad.

Yn sgil cyflwyniad Jeremy Evas a'r drafodaeth am y term 'rhugl' fel rhan o e-byst, roedd EM wedi gofyn i swyddogion Comisiynydd y Gymraeg os oes rheidrwydd arnom i nodi rhuglder ein staff. Roedd OD o'r farn na ddylwn wario gormod o egni ar y mater ac efallai byddai angen trafodaeth uniongyrchol gyda'r Comisiynydd.

10. **Aelodaeth y Bwrdd**

Holwyd os oedd diweddariad ynglŷn â'r broses hysbysebu am Aelodau newydd. Roedd DCMS wedi rhoi gwybod i OLl fod yr hysbyseb i fod i ddigwydd mis yma.

11. **Trafodaethau taliadau staff**

Fel arfer, fe drafodir taliadau staff yn ystod y cyfnod yma, ond gyda'r ansicrwydd o ran Covid-19 a chydleoli ac ati, argymhellid y dylai'r trafodaethau aros tan fis Medi, gydag unrhyw newidiadau yn cael eu hôl-ddyddio i fis Awst.

12. **Cyflwyniad - Pwrpas a Phileri S4C**

Cafwyd cyflwyniad gan Morgan Lloyd ar bwrpas a phileri S4C ar gyfer y dyfodol. Roedd trafodaethau gyda rhai o'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli wedi bwydo mewn i'r gwaith hwn.

Diolchodd OD am y cyflwyniad oedd yn ddiddorol ac yn tynnu llawer o syniadau at ei gilydd. Roedd yn cytuno gyda'r canfyddiadau a holodd ymhellach o ran perthynas S4C fel darlledwr cyhoeddus a hybu'r iaith Gymraeg. Credai MLl taw nid PSM traddodiadol oedd S4C a bod angen bod yn radical ond gyda phwrpas clir i ysbrydoli pobl. Roedd model PSM traddodiadol yn tueddu i gyfyngu pethau. Rhoi llwyfan i'r iaith oedd yn bwysig.

Roedd OD yn cytuno gyda'r pwrpas. Roedd AR o'r farn fod angen pwrpas eglwys eang ac i S4C apelio at bawb yng Nghymru gan gynnwys y di-gymraeg. Annog pobl i ddefnyddio'r iaith a defnyddio sawl ffordd amrywiol i helpu'r iaith i ffynnu oedd yn bwysig. Roedd AG yn awyddus i'r iaith fod yn fwy naturiol. Roedd angen bod yn genhadol ac roedd AG yn cytuno gyda phwrpas mwy eang. Nid dim ond sianel dylai S4C fod ac roedd angen newid y meddylfryd. Nid ymgyrchu dros yr iaith oedd y nod ond helpu'r iaith i ffynnu.

Cafwyd trafodaeth am gomisiynu deunydd Saesneg. Roedd AR o'r farn fod hwn yn gwestiwn mawr ond bod angen cadw'r sianel linol ar gyfer cynnwys Cymraeg gan wasanaethu'r gynulleidfa graidd. Ond gyda'r casglwr cynnwys, roedd potensial i S4C genhadu o ran yr iaith ac arbrofi yn enwedig gyda rhai

genres fel chwaraeon lle gallwn ddod a chynulleidfa ehangach at y gwasanaeth. Cytunodd OD gan ddweud dylai S4C cynrychioli holl bobl Cymru.

Roedd MLl o'r farn mai pwrpas S4C dylai fod i helpu'r iaith i ffynnu. Doedd dim modd gwneud hynny gyda dim ond Cymry Cymraeg. Roedd angen i'r genedl gyfan deimlo perchnogaeth dros yr iaith.

Cafwyd trafodaeth bellach am sut mae S4C yn cael ei gweld mewn teuluoedd cymysg eu hiaith, a nododd GW nad ydy'r sianel yn ddewis cyntaf mewn cartrefi dwyieithog, ond yn hytrach yn sianel atodol ar ôl y BBC ac ITV.  Os taw'r pwrpas oedd helpu'r iaith i ffynnu, holodd OD sut byddai mesur hynny. Credai MLl mai llwyddiant fyddai mwy o bobl yn defnyddio a dysgu'r iaith, a theimlad positif tuag at yr iaith. Yn sicr byddai angen edrych ar fesuriadau a mynd y tu hwnt i BARB i ddeall y darlun cymhleth. Nododd OD y byddai hwn yn brosiect mawr. Nododd AR y byddai modd manteisio ar y ffaith fod S4C yn 40 yn 2022, gan efallai greu drama neu gyfres o ddramâu yn olrhain yr hanes.

Gofynnodd RhW sut orau i symud y gwaith hwn ymlaen? Byddai angen trafod ymhellach yn y Cwrdd i Ffwrdd ond doedd dim rheswm beidio parhau gyda'r gwaith yn y cyfamser. Gan fod hwn mor sylfaenol i'r sefydliad, dywedodd OE ei fod yn awyddus trafod gyda'r staff nesaf. Byddai hwn wedyn yn galluogi'r Tîm Rheoli i fireinio cyn adrodd nôl i'r Bwrdd ym mis Medi fel sylfaen i'r drafodaeth am Strategaeth 2022. Cytunodd AG ei bod yn hynod bwysig cael 'buy-in' y staff fydd yn y pen draw yn gweinyddu'r strategaeth. Ategodd RhW fod angen gofyn barn y staff ar hyd y ffordd, a pheidio cyflwyno'r strategaeth fel rhywbeth sydd eisoes wedi'i benderfynu.

13. **Strategaeth 2022**

Aeth OE â'r Bwrdd yn gyflym trwy gyflwyniad ynglŷn â Strategaeth 2022 fel sail i'r Cwrdd i Ffwrdd ym mis Medi.

Cytunodd OD fod y cyflwyniad yn strwythur da i gael trafodaeth ym mis Medi. Dywedodd fod cymaint o bethau i drafod a bod angen ystyried yn ofalus creu'r amser a'r lle i wneud hynny heb ormod o gyflwyniadau a manylder. Roedd hi'n amlwg fod partneriaethau yn bwysig ond roedd angen deall beth fyddai llwyddiant a sut i fesur hwnnw. Cytunwyd cynnal trafodaeth lawn ym mis Medi ynglŷn ag union drywydd S4C i'r dyfodol. Roedd AG yn awyddus i dderbyn unrhyw bapurau dros gyfnod yr haf o ystyried pwysigrwydd y drafodaeth.

Roedd AR am geisio cytuno egwyddorion y gwasanaeth, gyda chwestiynau o gwmpas rhai elfennau o'r gwasanaeth, a sut y gallai'r gwasanaeth llinol edrych yn y dyfodol. Awgrymodd RhW bod angen meddwl am ba gynnwys ydyn ni eisiau ac ar ba blatfform. Ond nodwyd hefyd pwysigrwydd adnabod ein cynulleidfa a'r risg o symud yn rhy gyflym i gynllun newydd.

Teimlai AG bod cynnwys dros y cyfnod Covid-19 wedi helpu denu mwy o ddiddordeb a chyffro. Nododd AR fod llwyddiannau dros y cyfnod clo ond gyda'r gynulleidfa graidd yn fwy na neb arall. Er hynny, roedd rhai rhaglenni archif wedi gwneud yn eithriadol dros y cyfnod yma megis Tipyn o Stâd.

Roedd AR yn credu bod mwy o ddewrder gan S4C yn y gorffennol o ran cynnwys. Credai OD bod Hansh yn esiampl dda o wthio'r ffiniau. Roedd EM yn cydnabod bod brand Hansh yn rheolaidd yn gwthio'r ffiniau, ond bod angen cael brand cryf ar gyfer pob strand o'r gwasanaeth.

Cytunwyd cynnal Cwrdd i Ffwrdd diwedd mis Medi gyda'r ffocws ar Strategaeth 22.

14. **Cofnodion Cyfarfod 18fed Mehefin 2020.**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 440 gynhaliwyd ar y 18fed o Fehefin.

Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

15. **Materion yn Codi**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

16. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

17. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.